**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@senedd.wales

18 Gorffennaf 2023

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2023**

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch dyddiedig 28 Mehefin 2023. Rwy'n sgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol osod Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2023 mewn cysylltiad â Chymru. Rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig, gweler Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2023 (3 Gorffennaf 2023) | LLYW.CYMRU.

Mae'r OS yn diwygio Rheoliad (UE) 2019/1021 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar lygryddion organig parhaus (ail-lunio) ("y Rheoliad POP a ddargedwir"). Mae'n estyn o 4 Gorffennaf 2023 i 3 Rhagfyr 2025 ddyddiad rhanddirymiad o ran gweithgynhyrchu, rhoi ar y farchnad a defnyddio asid perfflworooctanoig (PFOA), ei halwynau a chyfansoddion PFOA ar gyfer tecstilau sy'n gwrthsefyll olew a dŵr er amddiffyn gweithwyr rhag hylifau peryglus sy'n risg i iechyd a diogelwch. Mae'r Rheoliadau'n estyn i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Gwnaed yr Offeryn Statudol o dan erthyglau 2A, 15(1) a 18(1) Rheoliad POPs. Roedd yn destun y weithdrefn penderfyniad negyddol a chafodd ei osod gerbron Senedd y DU ar 29 Mehefin 2023.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai cyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru. Ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol bod sylwedd y diwygiadau'n ymwneud â Chymru gan nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU ar y mater hwn. Bydd hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn gydlynol ac yn gyson, gyda'r rheoliadau ar gael mewn un offeryn. At hynny, Rheoliad ar gyfer Prydain Fawr yw'r rheoliad sy'n cael ei ddiwygio, felly rhaid gwneud y diwygiadau yn Saesneg yn unig.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**